

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 10 Mehefin 2021 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Margaret Fernley
Y Cynghorydd Megan Tomos
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris
Y Cynghorydd Alun Thomas

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Jên Morris

Cynghorydd Sir

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Evan Jones.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2021.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Tai'n Lon – Cadarnhawyd fod y gwaith wedi gael ei gwblhau, ond fod nawr angen cadw golwg ar yr ochr isaf.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Nodwyd fod gwaith codi bylchau yn mynd ymlaen – y Cynghorwyr i gadw golwg ar y mater.

Paragleidio ar Moel Wnion – Dim diweddariad ar y cytundeb. Nodwyd fod hyfforddiant yn gael ei gynnal ar y Foel, a fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn edrych i fewn i'r mater.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – Cyng. Geraint Hughes i holi Meleri Davies yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Partneriaeth Ogwen.

Twll yn y ffordd ger y Wern – y twll wedi gael ei lenwi, ond mae dŵr dal i barhau i lifo i lawr, a mae'r ffordd yn beryglus iawn yn ystod cyfnodau o eira a rhew. Cyng. Megan Tomos i danfon cynnwys llythyr at y Clerc, a'r Clerc i ddanfôn ymlaen at yr adran priffyrdd a'r Cyng. Dafydd Meurig.

Cysylltiad Fibreoptig – Cafwyd sgwrs am y problemau presennol. Nodwyd y bydd y Cyng. Megan Tomos yn mynd ymlaen i ymweld a'r cartrefi yn yr ardal drost yr haf, i gael sgwrs am y problemau cysylltu.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cae Gwigin – Wedi derbyn ebost arall gan Julian Johnson am y problemau presennol. Cadarnhawyd y bydd y Cynghorwyr lleol yn cadw llygaid ar y mater, gan obeithio a wneith ddim digwydd eto. Nodwyd fod rhieni'r plant wedi mynd ar afael ar y sefyllfa. Y Cyng. Dafydd Meurig wedi cysylltu a'r Swyddog Heddlu Cymunedol, ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Julian Johnson – Torri gwair Talybont £210.00

6. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2020-21

Yn anffodus nid oedd yn bosib cynnal archwiliad mewnol erbyn y cyfarfod, cadarnhawyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod byr arall cyn diwedd y mis.

7. Ffurflen Flynyddol 2020-21

Nodwyd y bydd y Ffurflen Flynyddol yn gael ei awdurdodi yn y cyfarfod byr a bydd yn gael ei gynnal cyn diwedd y mis.

8. Cae chwarae Tal y Bont

Gardd Cymunedol – Nodwyd fod y gwaith yn Llys Dafydd, Bethesda ar fin gorffen. Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu a ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Cae Pel-droed – Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyng. Evan Jones ac Alun Thomas a'r Clerc. Y Clerc wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd i holi am bris torri'r gwair, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i cysylltu a'r contractwr preifat i ofyn iddynt dorri'r gwair cyn gynted a phosib. Nodwyd fod defaid o'r cae cyfagos yn dod i mewn i'r cae pel-droed yn aml, y Clerc i gysylltu a'r ffermwr i ofyn iddo drwsio'r ffens, Cyng. Kevin Williams i ddanfôn y manylion cyswllt at y Clerc.

9. Y Mynydd

Nodwyd y Cyng. Wyn Bowen Harris eu bod heb gallu gael diweddariad ar materion y mynydd. Y Clerc i holi Gethin Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ddiweddariad.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd gohebiaeth er gwybodaeth yn unig, nid oedd unrhyw faterion weithredol.

11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Gweminar: Adolygu Mesurau Rheoli Ymwelwyr yng Ngogledd y Parc – Y Cyng. Jên Morris a Megan Tomos wedi mynychu'r cyfarfod. Y Clerc i wahodd Angela Jones i'r cyfarfod nesaf. Holiadur wedi gael ei gynnwys yn y ffolder ohebiaeth.

Cyf-ethol – Nodwyd fod y Cyng. Geraint Hughes wedi gael ei gyf-ethol fel cynrychiolydd o'r gymuned ar Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llanllechid.

Elusen Ogwen – Y Clerc wedi cynnwys manylion yr elusen yn y ffolder ohebiaeth. Y Cyng. Megan Tomos i holi os oes modd gwneud cais am rhodd tuag at gwella'r rhwydwaith fibreoptig yn ardal Llanllechid.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

NP3/21/28D

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0309/21/CT

Ffermdy Red Lion, Llanllechid

Torri Coed mewn Ardal Cadwraeth

Penderfyniad: Caniatwyd heb amodau.

C21/0333/21/DT

Cae Mawr, Talybont

Cais ar gyfer ymestyn modurdy ddomestig i greu ystafell gardd

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0351/21/DT

Tanlôn Cottage, 4 Tan y Lon, Ffordd Aber, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad unllawr uwchlaw estyniad to gwastad cefn presennol ynghyd ac estyniadau ffenestri cromen eisoes wedi eu caniatáu o dan gais cynllunio cyfeirnod

C20/0958/21/DT

Penderfyniad: Caniatwyd heb amodau.

NP3/21/T76B

Llwyn Penddu Isaf, Llanllechid, LL57 3LL

Estyniad unllawr ar yr ochr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0455/21/RA

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod rhif 13 (Cynllun Tai Fforddiadwy) a 23 (Datganid Dull Ymlusgiaid) ynghyd a rhannol rhyddhau amod 17 (Datganiad Dull Adeiladwaith), 22 (Cynllun Atal Llygredd) ac amod 24 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth).

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

C21/0475/21/AC

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Newid amod rhif 2 (diwygiadau i'r cynllun, edrychiadau'r tai a'r system ddraenio) ynghyd a newid amod 28 (defnyddio ffensio math heras yn hytrach na ffensio atal dyfrgwn) o ganiatâd rhif C19/0950/21/LL.

Penderfyniad: Nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i wneud unrhyw benderfyniad hyd nes bod dilysrwydd a cyfreithlondeb y caniatad gwreiddiol yn cael ei sefydlu.

12. Materion Brys

Datblygiad Cae Rhosydd – Nid ydym wedi derbyn ymateb gan Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithriol, Cyngor Gwynedd hyd yn hyn, nodwyd yn eu ebost eu bod yn bwriadu ymateb erbyn 11 Mehefin 2021. Cafwyd sgwrs gryno a sesiwn holi ac ymateb gyda'r Cyng. Dafydd Meurig, sydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod byr cyn diwedd y mis i drafod ymateb Cyngor Gwynedd ac i benderfynu ar y camau nesaf.

Llwybrau – Nodwyd y Cyng. Dafydd Jones fod y drain ar hyd llwybr Cae Rhosydd a Eglwys Llan wedi gor-dyfu, y Clerc i hysbysu'r Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.

Fynwent Llan – Nodwyd fod y fynwent wedi gor-dyfu yn ofnadwy, y Clerc i ofyn i'r contractwr i fynd yno cyn gynted a phosib.

Llyn Bryn – Dau bwlch wedi disgyn ger Llyn Bryn, y Clerc i gysylltu â Stad Penrhyn.

Beiciau Modur – Nodwyd y Cyng. Kevin Williams bod beiciau modur wedi bod yn mynd ar y mynydd drwy giat Chwarel Bryn, a fod y giat yn gael ei adael ar agor. Mae'r beiciau yn dod o ardal Talybont. Y Clerc i hysbysu'r heddlu a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.